

Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth



CYNLLUN STRATEGOL 2013-16



Croeso i gynllun strategol Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (UMABer) ar gyfer y tair blynedd hyd at 2016.

Mae'r cynllun yn seiliedig ar ymgynghoriad a wnaed gyda nifer sylweddol o fyfyrwyr a staff. Mae canlyniadau arolwg myfyrwyr 2013 ac arolwg *igrad* 2012 ynghyd ag ymgynghoriadau uniongyrchol gyda chynrychiolwyr myfyrwyr a grwpiau ffocws staff wedi llywio ein dyheadau a'n llwybr ar gyfer y dyfodol.

Fel oedd i'w ddisgwyl, mae'n hymchwil wedi datgelu amrywiaeth eang o safbwyntiau ar faterion allweddol. Rydym ni'n dathlu'r amrywiaeth yma ac yn cydnabod barn leiafrifol, a hynny wrth selio themâu allweddol ein strategaeth ar gonsensws. Yr hyn syn bwysig yw bod ein cynllun strategol wedi ei lywio a'i gymeradwyo gan gyfran dda o'n myfyrwyr.

Mae'r cynllun yn gosod y seiliau ar gyfer datblygiad UMABer dros y 3 mlynedd nesaf a hynny er mwyn cyflawni ein gweledigaeth. Mae'n amlinellu ein bwriad a'n diben, ein gwerthoedd unigryw, ac yn egluro sut y byddwn yn mynd ati i gyflawni'r strategaeth, ein themâu strategol allweddol, yr effaith yr ydym yn gobeithio ei gael a'r ffyrdd y byddwn yn gwerthuso ein hymdrechion.



UMAbber 2016

Ein Bwriad

I gynrychioli, cefnogi, datblygu a gweithio'n agos gyda'n myfyrwyr er mwyn gwella eu cyfnod yn y Brifysgol a'u galluogi i lwyddo i'w llawn potensial fel graddedigion Aber.

Ein Gwerthoedd





CIPOLWG

SIARAD

Meithrin cysylltiad a gwneud yn siwr eich bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd

#Tud 7

LLAIS

Gwrnado arnoch chi, eich cynrychioli a rhoi llais i'ch barn

#Tud 5

CYFLOGADWYEDD

Cefnogi a buddsoddi yn eich dyfodol

#Tud 9

Ein Gweledigaeth

Sicrhau profiad eithriadol o fod yn fyfyrwr ac enw da parhaol. Bydd hyn yn bosibl drwy bartneriaethau cryf gyda'n rhanddeiliaid allweddol.

CYFLEUSTERAU

Darparu gofod cymdeithasol, gofod i ddysgu a gofod i gael cymorth sy'n fodern a chyfoes

#Tud 11

CYFLEOEDD

Cynnig yr amrywiaeth orau o gymdeithasau, chwaraeon a chyfleoedd gwirfoddoli

#Tud 15

CYMORTH

Eich cefnogi ar bob lefel yn ystod eich cyfnod gyda ni

#Tud 13

THEMA ALLWEDDOL 1 llais



Fe ddangosodd yr arolwg fod 81% ohonoch yn credu y dylai'r Undeb ganolbwyntio ar **gynrychiolaeth myfyrwyr** fel eu **prif ffocws**. Mae hyn yn cyd-fynd â chynllun strategol y Brifysgol sy'n nodi ymrwymiad i sicrhau bod 'llais y myfyrwyr yn cyfrannu at y penderfyniadau a wneir ar bob lefel.'

Fe nodoch y dylai unrhyw ymgyrchu ganolbwyntio'n bennaf ar faterion sy'n **ymwneud â'r Brifysgol**, tra bod pryderon lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn llai pwysig o lawer.

O'r rhai a gymerodd rhan yn yr arolwg, roedd 41% ohonoch yn pleidleisio mewn etholiadau myfyrwyr, nifer sy'n uwch na'r 24% a bleidleisiodd yn y bleidlais 2013 ddiweddar. Yr her yw cyrraedd y bobl na gymerodd rhan yn yr arolwg yn y lle cyntaf, yn ogystal â'r 59% ohonoch a ddywedodd nad ydych chi'n pleidleisio ar hyn o bryd.

EICH SYLWADAU

'Hoffwn weld yr UM yn cymryd rhan amlycach mewn ymgyrchoedd'

'Mae cynrychiolaeth myfyrwyr yn bwysig'

'Dylai UM fod yn llais gwleidyddol'



Felly, yn 2013-2016, byddwn yn:

- 1 Gwneud y broses ddemocrataidd a strwythurau cynrychiolaeth mor hygyrch ac mor effeithiol â phosibl, gan roi'r pŵer i fyfyrwyr wneud penderfyniadau cyfunol ac ymyraethau strategol.
- 2 Dod yn bartner beirniadol o'r Brifysgol, gan ymgysylltu â hwy ar bob lefel i wella'r profiad o fod yn fyfyrwr.
- 3 Parhau i ethol a hyrwyddo cynrychiolwyr cwrs er mwyn sicrhau fod myfyrwyr yn gallu dylanwadu ar faterion academaidd, a chynrychiolwyr neuaddau a chynrychiolwyr cymunedol er mwyn rhoi llais i fyfyrwyr sy'n byw yn llety'r Brifysgol a llety'r sector breifat.
- 4 Sicrhau bod swyddogion yn cael y gefnogaeth angenrheidiol a'u bod yn atebol am eu perfformiad.
- 5 Gwneud yn siŵr bod ymgyrchoedd yn canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â'r Brifysgol a materion lleol yn unig, gan hysbysu gwneud penderfyniadau yn y ddau achos.
- 6 Parhau i gefnogi UCM drwy ymgyrchoedd cenedlaethol a rhyngwladol.
- 7 Cydweithio'n agos gyda UMCA, gan adlewyrchu ein 'ymdeimlad o le' yn ein gweithredoedd.

SUT?

- cynyddu'r nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau swyddogion yn flynyddol
- adolygiad blynyddol o swyddi a phortffolios swyddogion
- adolygiad o strwythurau democrataidd yn 2014/2015 er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas
- bod swyddogion llawn amser etholedig yn cael sesiynau cychwynnol cynhwysfawr a disgrifiadau swydd a chytundebau cyflogaeth clir – y swyddogion i fod yn atebol i'r rhain
- presenoldeb llawn gan gynrychiolwyr yng nghynadledau UCM Cymru a chynadledau cenedlaethol UCM.

Mesur Llwyddiant:

- Bydd 30% o'r holl fyfyrwyr yn pleidleisio yn yr etholiadau swyddogion blynyddol erbyn 2016
- Bydd 50% o'r holl fyfyrwyr yn datgan eu bod yn gallu cael rhywfaint o ddylanwad ar y ffordd mae eu cyrsiau yn cael eu rhedeg erbyn 2016

THEMA ALLWEDDOL 2 siarad



The Aber Experience Plan



Guide to the Students' Uni



Fe ddangosodd yr arolwg fod 21% ohonoch o'r farn fod **diffyg gwybodaeth** am y **gwaith mae'r Undeb yn ei wneud**. Hefyd, nid yw 35% ohonoch chi yn deall pa wahaniaeth mae'r Undeb yn ei gael ar eich profiad yn y Brifysgol.

EICH SYLWADAU

- 'gwrando a dysgu beth mae'r myfyrwyr ei eisiau'*
- 'mae angen i'r Undeb wella'r modd maen nhw'n cyfathrebu gyda myfyrwyr'*
- 'angen mwy o sylw i hysbysebu digwyddiadau'r nos'*
- 'mae hi'n bwysig iawn i ail-wneud cysylltiad â myfyrwyr sydd ddim yn defnyddio cyfleusterau'r Undeb'*



Felly, yn 2013-2016, byddwn yn:

- 1 Mynd ati'n rhagweithiol i ymgysylltu â'r gymuned myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill er mwyn deall beth ydy eu hanghenion a'u dymuniadau.
- 2 Dangos yn glir beth yw swyddogaeth yr Undeb, a hynny drwy gyfathrebu effeithiol. Dylai hyn ddangos yn eglur beth yw pwrpas sylfaenol ac amcanion yr Undeb, yn ogystal â datgan y llywodraethu a phrosesau, y gwasanaethau cymorth sy'n cael eu darparu i fyfyrwyr, y gwasanaethau masnachol sydd ar gael, a'r gofod sydd ar gael ar gyfer digwyddiadau a chyfarfodydd.
- 3 Datblygu strategaeth marchnata a chyfathrebu effeithiol sydd â phwyslais arbennig ar y defnydd cynyddol o sianeli digidol a chyfryngau cymdeithasol.
- 4 Targedu'n uniongyrchol y myfyrwyr hynny sy'n anodd eu cyrraedd drwy ddulliau cyfathrebu arloesol a thrwy brosiectau ymchwil penodol fydd yn canfod eu hanghenion.

SUT?

- sefydlu fîm marchnata a chyfathrebu effeithiol fydd yn cynnwys staff proffesiynol erbyn canol 2013
- diweddariadau rheolaidd o'n perfformiad yng ngolwg y cynllun strategol
- cynyddu'r nifer o fyfyrwyr UM sy'n cymryd rhan mewn arolygon myfyrwyr yn flynyddol
- cyhoeddi data cryno yn dangos sut mae'r Undeb yn cael ei ariannu ac ar beth mae'r arian yn cael ei wario
- cynnyddu refeniw masnachol yn flynyddol

Mesur Llwyddiant:

- Erbyn 2016, bydd 85% o'r holl fyfyrwyr yn datgan bod UMAber yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at eu cyfnod yn Aber.
- Erbyn 2016, bydd 35% o'r holl fyfyrwyr yn dweud eu bod yn deall sut mae'r Undeb yn cael ei ariannu ac yn ymwybodol o sut mae'r arian yn cael ei wario.

THEMA ALLWEDDOL 3 cyflogadwyedd



Fe ddangosodd yr arolwg fod 83% ohonoch yn teimlo ei bod hi'n bwysig i'r Undeb **eich helpu i fod yn fwy cyflogadwy**. Hefyd, wrth drafod y ddarpariaeth cyngor sydd o ddiddordeb i fyfyrwyr, fe ddewiswyd cyflogadwyedd gennych chi fel y pwnc pwysicaf un. Mae'n amlwg fod cyflogaeth yn ystod eich cyfnod fel myfyriwr yn flaenoriaeth, gyda 32% ohonoch yn gweithio ar hyn o bryd a 70% ohonoch yn dweud ei bod hi'n bwysig i gael swydd.

EICH SYLWADAU

'mae cyfleoedd gwaith yn bwysig iawn, gan mai dyna yw prif nod myfyrwyr sy'n dod i'r brifysgol'

'sichau fod eich cwrs yn cynnig rhyw fath o brofiad gwaith sy'n gysylltiedig â swyddi'r dyfodol'

'pam ddim cynnal sesiynau cyflogadwyedd?'



Felly, yn 2013-2016, byddwn yn:

- 1** Lobio a chydweithio gyda'r Brifysgol i gynyddu'r cyfleoedd cyflogadwyedd a hynny drwy'r maes llafur, swyddi dan hyfforddiant i raddedigion a digwyddiadau sy'n cael eu harwain gan gyflogwyr.
- 2** Ymchwilio, cymeradwyo a hwyluso cyfleoedd menter, gwirfoddoli, arweinyddiaeth a datblygu ar gyfer ein myfyrwyr, gan wella eu cyflogadwyedd y tu allan i'r ystafell ddosbarth.
- 3** Gweithio i ddatblygu ein cynllun cyflogadwyedd ein hunain a fydd yn cydnabod y sgiliau a'r profiadau mae myfyrwyr yn eu hennill yn ystod eu cyfnod yn Aber.
- 4** Gweithio i sicrhau'r buddion gorau ar gyfer y myfyrwyr sy'n gweithio i'r Undeb.
- 5** Ceisio sicrhau achrediad sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol lle bo hynny'n briodol.

SUT?

- cynllun cyflogadwyedd 'Gwobr Aber' erbyn dechrau 2014
- gofod deniadol a chyffyrddus fydd yn rhoi gwybodaeth i fyfyrwyr am gyfleoedd menter, gwirfoddoli, hyfforddi a datblygu
- buddsoddi mewn achrediad i wirfoddolwyr erbyn diwedd 2014
- rhaglen hyfforddiant yn cynnwys sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer y myfyrwyr sy'n gweithio yn yr Undeb a sefydlu cofnodion cadarn o hyfforddiant a phrofiad
- cydweithio ag adran Gyrfaoedd y Brifysgol i gynnal hyfforddiant sgiliau meddal a digwyddiadau sy'n cael eu harwain gan gyflogwyr

Mesur Llwyddiant:

- Erbyn 2016, bydd 40% o'r holl fyfyrwyr yn dweud bod mentrau UMAber wedi eu cynorthwyo i fod yn fwy cyflogadwy.
- Erbyn 2016, bydd 60% o'r myfyrwyr sy'n gweithio i'r Undeb yn dweud bod eu profiad o weithio i UMAber wedi eu cynorthwyo i gael gwaith llawn amser ar ôl gadael y brifysgol.

THEMA ALLWEDDOL 4 cyfleusterau



Fe ddangosodd yr arolwg nad yw 48% ohonoch yn defnyddio cyfleusterau'r Undeb i astudio rhwng darlithoedd. Fe nododd 16% ohonoch mai 'ffactorau glanweithdra' sy'n eich atal rhag defnyddio mwy ar yr Undeb. Yn benodol, fe nodwyd mai diffyg seddi cyfforddus a'r amgylchedd ffisegol gyffredinol digroeso yw'r prif ffactorau yn erbyn defnyddio'r cyfleusterau.

Mae'r angen am **ofod dysgu cymdeithasol sy'n gyfoes, yn gyfforddus ac sy'n cynnwys adnoddau addas** yn amlwg. Mae angen i'r gofod hwn fod yn debyg i rai eraill sydd ar y campws ac mewn undebau prifysgolion ar draws y DU. Mae myfyrwyr angen ac yn haeddu cyfleusterau sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Hefyd, mae dros ddwy ran o dair ohonoch yn byw yn y dref heb fynediad uniongyrchol i gyfleusterau a gwasanaethau'r Undeb.

EICH SYLWADAU

'mae mwy o ofod dysgu cymdeithasol yn allweddol'

'seddi mwy cyfforddus'

'lle i astudio, cymdeithasu ac i gael cinio'

'mae adeilad yr Undeb mor ddi-raen, mae'n gywilyddus!'



Felly, yn 2013-2016, byddwn yn:

1

Lobio'r Brifysgol i ail-fuddsoddi'n sylweddol yng nghyfleusterau'r Undeb: mae Strategaeth Ystadau'r Brifysgol yn cydnabod yr angen am fuddsoddiad yn isadeiledd ffisegol adeilad yr Undeb, ar y cyd ag adeiladau eraill ar y concwrs.

2

Yn y cyfamser, mae angen i ni wneud ychydig o waith ein hunain ym Mar Cwtch a'r siop er mwyn dangos yr effaith gadarnhaol y mae modd ei gyflawni. Byddwn yn anelu i barhau gyda'r gwaith yn ardaloedd eraill o adeilad presennol yr Undeb.

3

Cydweithio gyda'r Brifysgol i ddarganfod a datblygu cyfleuster yn y dref fydd yn cynnwys gofod cymdeithasol, gofod i ddysgu a gofod i gael cymorth.

SUT?

- ymrwymiad cadarn gan y Brifysgol erbyn 2014 i ddarparu adeilad yr Undeb ar ei newydd wedd, i'w gwblhau erbyn 2015/2016
- cynlluniau tymor byr ar gyfer adnewyddu'r 'Brif Ystafell' a'r 'Underground' erbyn Gorffennaf 2013, gan sicrhau cyllid a chyflawni'r addewid erbyn canol 2014
- adnabod lleoliad addas yn y dref erbyn haf 2013, gan ddatblygu'r cynlluniau erbyn dechrau 2014 a sicrhau cyllid i gyflawni'r addewid erbyn 2015
- adnewyddu'r Ystafell Bwyllgor erbyn canol 2013
- darparu cadeiriau a byrddau newydd lle bo angen erbyn Hydref 2013

Mesur Llwyddiant:

- Erbyn 2016, bydd 65% o'r holl fyfyrwyr yn defnyddio un o gyfleusterau'r Undeb rhwng darlithoedd
- Erbyn 2016, bydd 5% neu lai o'r holl fyfyrwyr yn datgan mai 'ffactorau glanweithdra' sy'n eu rhwystro rhag defnyddio'r Undeb

THEMA ALLWEDDOL 5

cymorth



Fe ddangosodd yr arolwg fod 76% ohonoch yn ystyried ei fod yn bwysig i'r Undeb ganolbwyntio yn y dyfodol ar y **ddarpariaeth o gyngor i fyfyrwyr**. Daeth hyn yn ail i gynrychiolaeth. Y meysydd yr ydych chi'n ei deimlo sydd angen y mwyaf o gefnogaeth yw **cyflogadwyedd, llety, cyllid** ac **addysg**.

EICH SYLWADAU

- 'lles myfyrrwyr'*
- 'angen mwy o ymgynghorwyr'*
- 'cymorth gyda phroblemau tai'*
- 'cyngor a chefnogaeth ar gyfer myfyrrwyr sy'n dioddef'*



Felly, yn 2013-2016, byddwn yn:

1

Gwneud hi'n haws i fyfyrwyr ddod o hyd a chael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt, gan barhau i ddarparu ymgynghorwyr annibynnol a phroffesiynol.

2

Sicrhau gwasanaeth ail ymgynghorydd proffesiynol sy'n arbenigo mewn materion myfyrwyr rhyngwladol. Mae hyn er mwyn adlewyrchu'r twf a ragwelir yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol ac i esmwytho gwaith y swyddogion rhan amser.

3

Cefnogi strwythur swyddogion sy'n ymgyrchu'n effeithiol gyda'r rhanddeiliaid perthnasol i sicrhau fod barn y myfyrwyr ar faterion sy'n ymwneud â chyflogadwyedd, tai, cyllid ac addysg yn cael ei glywed.

4

Cydweithio â'r Brifysgol i sicrhau fod y cyngor a'r cymorth sy'n cael ei ddarparu yn berthnasol i brofiadau myfyrwyr y cyfnod a bod y cyngor a'r cymorth gan yr Undeb a'r Brifysgol yn ategu ei gilydd.

SUT?

- sefydlu Canolfan Cyngor a Chynrychiolaeth (CCC) sy'n hygyrch, diogel, arwahanol ac sy'n hawdd ei defnyddio erbyn diwedd 2014
- cyngor a chymorth ar y we sy'n hygyrch i fyfyrwyr sydd ddim ar y campws erbyn diwedd 2013
- cynnydd blynyddol yn nifer gweithiau achos CCC
- cyflogi ail ymgynghorydd erbyn diwedd 2013
- cyhoeddi arolwg llety blynyddol

Mesur Llwyddiant:

- Erbyn 2016, bydd 60% o'r holl fyfyrwyr yn cytuno ei bod hi'n hawdd cael gafael ar gyngor gan yr Undeb, naill ai'n uniongyrchol neu'n ddigidol
- Erbyn 2016, bydd arolwg tai blynyddol UMAber yn cael ei ystyried fel un o'r enghreifftiau gorau o ymgyrch myfyrwyr sy'n cael effaith gadarnhaol ar ei aelodau

THEMA ALLWEDDOL 6 cyfleoedd



Fe ddangosodd yr arolwg, fod 57% ohonoch yn aelod o **gymdeithasau**, 39% yn ymwneud â **chlybiau chwaraeon** a 14% yn **gwirfoddoli**. Er y niferoedd cymharol isel hyn, fe nodoch mai'r gweithgareddau hyn ynghyd â digwyddiadau'r nos yw'r **meysydd pwysicaf y dylai'r Undeb ganolbwyntio arnynt** yn y dyfodol. Mae'r angen i ddarparu cyfleoedd amrywiol hefyd yn cael ei gydnabod gan y Brifysgol yn eu cynllun strategol.

EICH SYLWADAU:

- 'mwy o gefnogaeth i'r clybiau chwaraeon'*
- 'byddwn i'n un a fyddai wrth fy modd yn gwirfoddoli'*
- 'ehangu cyfleoedd ar gyfer y myfyrwyr'*
- 'angen mwy o ddigwyddiadau yn y nos'*



Felly, yn 2013-2016, byddwn yn:

- 1 Sicrhau fod adeilad yr Undeb yn dod yn ganolbwynt ar gyfer cyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau adloniant, hamdden, chwaraeon a gwirfoddol.
- 2 Codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd hyn ac annog ac ysgogi myfyrwyr i gymryd rhan. Hwyluso hyn drwy lefel priodol o staff a chefnogaeth broffesiynol.
- 3 Sicrhau adloniant nos sy'n gyfoes, yn ddeinamig ac yn berthnasol.

SUT?

- Cynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan mewn cymdeithasau, clybiau chwaraeon ac yn gwirfoddoli yn flynyddol.
- Cynyddu'r presenoldeb yn nigwyddiadau'r nos yn flynyddol
- Parhau i gynnal cystadlaeth Rygbi 7 yr ochr a Champau'r Cewri yn flynyddol a'r penwythnos *Varsity* bob yn ail blwyddyn.
- Clustnodi arian grantiau ar gyfer y cymdeithasau a'r clybiau chwaraeon

Mesur Llwyddiant:

- Bydd 50% o'r holl fyfyrwyr yn cymryd rhan mewn cymdeithasau, clybiau chwaraeon neu brosiectau gwirfoddoli erbyn 2016
- Bydd gennym ni 1000 o wirfoddolwyr gweithgar cofrestredig erbyn 2016.



Crynodeb

Mae'r cynllun hwn yn cynnig ein bod yn parhau gyda rhywfaint o'n ffyrdd presennol, gan gynnig hefyd newidiadau sy'n hollol angenrheidiol. Mae'n adeiladu ar y cryfderau a'r enghreifftiau o arfer da sy'n bodoli eisoes, gan gydnabod y meysydd lle nad ydym yn cyflawni ein dibenion ar hyn o bryd. Mae hefyd yn nodi meysydd sydd angen eu datblygu ac yn awgrymu cyfleoedd ar gyfer twf.

Mae llwyddiant y cynllun hwn yn rhannol ddibynnol ar ddatblygu partneriaeth newydd gadarn ag iach rhwng yr Undeb a'r Brifysgol, partneriaeth a fydd yn gofyn am ymrwymiad cadarnhaol gan y ddau sefydliad ar sawl lefel. Mae meithrin perthynas gyda'r gymuned leol hefyd yn hanfodol, a hynny er mwyn cefnogi myfyrwyr ac i ddatblygu cyfleoedd yn yr ardal. Bydd cydweithrediad pellach gydag undebau myfyrwyr mewn prifysgolion eraill, UCM Cymru a'r UCM yn sicrhau bod gennym ni fynediad at lwyfan cenedlaethol sy'n cyfrannu at bolisiau.

Bydd angen datblygu cynlluniau gweithredu manwl yn y disgyblaethau canlynol er mwyn dangos sut y byddwn yn mynd ati i weithredu'r strategaeth:

- Gwasanaethau Aelodau
- Marchnata a Chyfathrebu
- Gwasanaethau Masnachol

Yr uwch dîm rheoli newydd ar y cyd â'r swyddogion sy'n fyfyrwyr fydd yn gyfrifol am sicrhau fod y strategaeth yn cael ei chyflawni drwy'r cynlluniau hyn. Bydd yr uwch dîm rheoli a'r swyddogion yn atebol i Fwrdd Yr Ymddiriedolwyr.

Diolch!

Hoffem ddiolch i'r holl fyfyrwyr, staff a'r rhanddeiliaid eraill a gyfrannodd tuag at y cynllun hwn yn ystod y broses ymgynghori.





Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth

Penglais

Aberystwyth

Ceredigion

SY23 3DX

Ffôn: 01970 621700

E-bost: undeb@aber.ac.uk

Gwefan: www.umaber.co.uk